

Canllaw cyflym i staff gorsafoedd pleidleisio

Dylai'r canllaw hwn gael ei ddefnyddio ochr yn ochr â **Llawlyfr ar gyfer staff yr orsaf bleidleisio** y Comisiwn. Mae'r rhifau tudalen a roddir yn y canllaw hwn yn dangos lle mae gwybodaeth fanylach ar gael yn y llawlyfr.



Pwy all bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio?

t 15

Mae llythrennau sydd nesaf at gofnod etholwr ar y gofrestr yn dangos p'un a oes ganddynt hawl i bleidleisio yn yr etholiad hwn. Dim ond yr etholwyr canlynol a all gael papur pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio:

Llythrennau

Pwy

Dim llythrennau	Etholwyr arferol
Dim llythrennau + N	Etholwyr sydd wedi cofrestru'n ddienw
Dyddiad ar neu cyn y diwrnod pleidleisio	Etholwyr a fydd yn troi 18 oed ar neu cyn y diwrnod pleidleisio (heblaw fod ganddynt hefyd A neu G wrth ymyl eu cofnod)
E neu E+N	Arglwyddi tramor
F neu F+N	Etholwyr tramor
K neu K+N	Rhai o ddinasyddion aelod-wladwriaethau'r UE
L neu L+N	Arglwyddi
U neu U+N	Rhai o ddinasyddion aelod-wladwriaethau'r UE (Yr Alban yn unig)



Pwy na all bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio?

t 15

Ni ddylid rhoi papur pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio i'r etholwyr canlynol:

Llythrennau

Pwy

Dyddiad ar neu cyn y diwrnod pleidleisio	Etholwyr na fydd yn 18 oed ar neu cyn y diwrnod pleidleisio
A neu A+N	Pleidleiswyr drwy'r post
G neu G+N	Rhai o ddinasyddion aelod-wladwriaethau'r UE

**Cam 1 – gwirio'r pleidleisiwr**

Cyfarchwch yr etholwr a gofynnwch iddynt nodi eu henw a'u cyfeiriad.

Cadarnhewch eu bod yn gymwys i bleidleisio yn yr etholiad drwy wirio eu cofnod ar y gofrestr.

Tynnwch linell syth yn erbyn (ond nid trwy) cofnod y pleidleisiwr ar y gofrestr.

Darllenwch eu henw, a'u rhif etholwr (sy'n cynnwys cyfeirnod y dosbarth pleidleisio) o'r gofrestr.

Cam 2 – cyhoeddi'r papur(au) pleidleisio

Ysgrifennwch y rhif etholwr ar y rhestr rhifau cyfatebol wrth ochr y rhif papur pleidleisio perthnasol.

Sicrhewch fod y papur pleidleisio sydd i'w gyhoeddi yn dwyn y marc swyddogol.

Plygwch y papur pleidleisio, yna ei roi i'r pleidleisiwr heb ei blygu. Gofynnwch iddynt ei ailblygu unwaith maent wedi marcio eu papur pleidleisio yn y bwth pleidleisio.

Cam 3 – pleidleisio

Mae'r pleidleisiwr yn marcio'r papur pleidleisio ym mhreifatrwydd y bwth pleidleisio.

Gofynnwch i'r pleidleisiwr ddangos rhif y papur pleidleisio a'r marc adnabod unigryw ar gefn y papur pleidleisio i chi cyn iddynt ei osod yn y blwch pleidleisio.

**Nad yw daliwr yr allwedd wedi cyrraedd?****t 6**

Ceisiwch gysylltu â daliwr yr allwedd. Os oes angen, gwnewch drefniadau amgen, e.e. sefydlu gorsaf bleidleisio dros dro yng nghefn car. Rhowch wybod i'r swyddfa etholiadau. Rhaid i bleidleisio ddechrau am 7am.

Yw etholwr wedi difetha ei bapur pleidleisio?**t 16**

Diddymwch y papur pleidleisio a ddifethwyd. Rhowch ef yn yr amlen briodol, ysgrifennwch 'wedi ei ddiddymu' ar y rhestr rhifau cyfatebol a rhoi papur pleidleisio arall i'r etholwr.

Na all etholwr gael mynediad i'r orsaf bleidleisio?**t 23**

Ewch â'r papur(au) pleidleisio allan at yr etholwr ar ôl rhoi gwybod i unrhyw asiantiaid sy'n bresennol. Sicrhewch gyfrinachedd y bleidlais bob amser.

Yw etholwr anabl angen cymorth?

tt 23-24

Cynigiwch gymorth. Eglurwch pa gefnogaeth sydd ar gael.

Yw'r person sy'n gofyn am bapur pleidleisio yn

tt 39; 43

ymddangos ar y gofrestr fel un sydd wedi pleidleisio eisoes?

Gwiriwch os ydynt wedi penodi dirprwy. Os nad ydynt, dilynwch y broses pleidlais a gyflwynwyd. Gofynnwch y cwestiynau rhagnodedig cyn cyhoeddi papur pleidleisio a gyflwynwyd. Peidiwch â chyhoeddi papur pleidleisio a gyflwynwyd os nad yw'r cwestiynau yn cael eu hateb yn foddhaol.

Yw etholwr â marc 'A' ar y gofrestr yn dweud nad

tt 30-31

oeddent wedi gwneud cais i bleidleisio drwy'r post?

Peidiwch â chyhoeddi papur pleidleisio cyffredin. **Os ydynt wedi derbyn eu pleidlais bost:** anogwch nhw i'w dychwelyd i'r orsaf bleidleisio neu swyddfa etholiadau erbyn 10pm. Os nad ydynt yn dymuno ei dychwelyd, dilynwch y weithdrefn pleidlais a gyflwynwyd. **Os nad ydynt wedi derbyn eu pleidlais bost:** os yw cyn 5pm, cyfeiriwch nhw at y swyddfa etholiadau am un amnewidiol, os yw ar ôl 5pm, neu os nad ydynt eisiau un amnewidiol, dilynwch y drefn pleidlais a gyflwynwyd. Gofynnwch y cwestiynau rhagnodedig cyn cyhoeddi papur pleidleisio a gyflwynwyd. Peidiwch â chyhoeddi papur pleidleisio a gyflwynwyd os nad yw'r cwestiynau yn cael eu hateb yn foddhaol.

Yw etholwr yn honni ei fod wedi colli neu heb dderbyn eu pleidlais drwy'r post?

t 31

Cyn 5pm: cyfeiriwch nhw at y swyddfa etholiadau am un amnewidiol.

Ar ôl 5pm: dilynwch y weithdrefn pleidlais a gyflwynwyd. Gofynnwch y cwestiynau rhagnodedig cyn cyhoeddi papur pleidleisio a gyflwynwyd. Peidiwch â chyhoeddi papur pleidleisio a gyflwynwyd os nad yw'r cwestiynau yn cael eu hateb yn foddhaol.

Yw pleidleisiwr yn gofyn sut i gwblhau eu papur pleidleisio?

t 2

Eglurwch fod gan bleidleiswyr un bleidlais, y gellir ei defnyddio i bleidleisio dros blaid neu ymgeisydd unigol. Dylent nodi eu papur pleidleisio trwy roi 'X' unigol yn y blwch nesaf at yr ymgeisydd unigol neu blaid o'u dewis.

Nad yw person ar y gofrestr nac unrhyw un o'r hysbysiadau?

t 28

Peidiwch â chyhoeddi papur pleidleisio. Cyfeiriwch y pleidleisiwr at y swyddfa cofrestru etholiado.

Yw etholwr yn rhoi cerdyn pleidleisio i chi heb enw na chyfeiriad? t 34

Mae cardiau pleidleisio fel hyn yn cael eu hanfon at etholwyr sydd wedi cofrestru'n ddiennw. Peidiwch â gofyn am enw a chyfeiriad yr etholwr. Dilynwch y weithdrefn ar gyfer cyhoeddi papur pleidleisio i etholwyr diennw.

Yw etholwr eisiau dychwelyd eu pleidlais bost i'r orsaf bleidleisio? t 30

Gwiriwch fod y bleidlais bost i'r ardal gyfrif dan sylw. Os yw, rhowch hi yn y pecyn a ddarperir. Os nad yw, neu os ydych yn ansicr, cyfeiriwch y pleidleisiwr at y swyddfa etholiadau.

Yw person yn gofyn am bleidleisio ar ran rhywun sydd wedi cael argyfwng meddygol? t 33

Peidiwch â rhoi papur pleidleisio oni bai eu bod wedi cael eu penodi yn swyddogol fel dirprwy brys. Os nad ydynt, esboniwch y gall dirprwyon brys gael eu penodi tan 5pm, ac yna cyfeiriwch nhw at y swyddfa cofrestru etholiadol am fwy o wybodaeth ar y broses hon.

Ydych chi, neu rywun arall, yn amau nad yw'r person sy'n gwneud cais am bapur pleidleisio y sawl y maent yn ei ddweud ydynt? t 43

Cyn - a dim ond cyn - cyhoeddi papur pleidleisio, gall y Swyddog Llywyddu ofyn y cwestiynau rhagnodedig. Mae gan asiantiaid yr hawl i fynnu bod Swyddogion Llywyddu yn gofyn y cwestiynau hyn. Os ydynt yn cael eu hateb yn foddhaol, rhaid cyhoeddi papur pleidleisio cyffredin. Ni chaniateir i unrhyw ymholiadau pellach gael eu gwneud ynghylch hawl rhywun i bapur pleidleisio.

Y ceir aflonyddwch difrifol (e.e. tân, llifogydd, ayb.) Peidiwch â rhoi diogelwch unrhyw un mewn perygl. t 41

Os yw'n ddiogel i chi wneud hynny, sefydlwch orsaf bleidleisio newydd gerllaw. Rhowch wybod i'r swyddfa etholiadau.



Manylion cyswllt

Os ydych yn ansicr am unrhyw rai o'r gweithdrefnau a ddisgrifir yn y llawlyfr hwn, neu angen cysylltu â'r swyddfa etholiadau am unrhyw reswm arall, cysylltwch â: